**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**Nos Lun, 12/7/2021 trwy gyfrwng Zoom**

**Presennol:** **Y Cynghorwyr** Dewi Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths (is Gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones Euros Roberts,

Hefyd yn bresennol: Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

1. Derbyniwyd adroddiad newydd yr Archwilydd Mewnol a chytunwyd i gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol. Roedd hyn yn dilyn i'r Archwilwyr Mewnol gytuno i gywiro cofnod a wnaethpwyd ganddynt yn eu hadroddiad gwreiddiol. Rhoddodd y SAC eglurhad manwl ac roedd yn eglur yn awr fod yr Archwilydd Mewnol yn cytuno gyda ffigurau'r SAC. Roedd y SAC wedi cadw mewn cysylltiad gydag Archwilydd Cymru, Derek Evans.

2. **NP5/71/T56C** Estyniad i'r Eagles**:** Cytunwyd i gymeradwyo'r cais gan ychwanegu bod Parc Cenedlaethol Eryri a'r ymgeisydd yn ystyried barn y cymdogion.

3. Materion y Cynghorwyr: Cytunwyd i anfon at Heddlu Gogledd Cymru i fynegi anfodlonrwydd nad oeddent wedi rhoi gwybodaeth i gysuro trigolion Cynllwyd a Llanuwchllyn nos Wener 9/7/2. Fe glywyd nifer o ffrwydron wedi darganfod hen ffrwydradau ar fferm yng Nghynllwyd.